# Polisi Atal Twyll

| | |
|---|---|
| Perchennog | Y Prif Swyddog Ariannol |
| Rhif y fersiwn | 5.0 |
| Dyddiad Cymeradwyo | 14.11.25 |
| Cymeradwywyd gan | Y Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd Risg |
| Dyddiad dod i rym | 10 Tachwedd 2025 |
| Dyddiad yr adolygiad nesaf | Tachwedd 2027 |

# Polisi Gwrth-dwyll


1. Rhagarweiniad
   1.1 Nodau'r polisi.
   1.2 Cwmpas
   1.3 Cydymffurfiaeth
   1.4 Diffiniadau
   1.5 Deddf Twyll 2006
   1.6 Y drosedd Methiant i Atal Twyll (ECCTA)
   1.7 Amcanion y polisi
   1.8 Diben y polisi hwn
2. Swyddog Atebol a Phersonau Cyfrifol
   2.1 Swyddog Atebol
   2.2 Personau Cyfrifol
   2.3 Cyfrifoldebau’r cyflogai
   2.4 Cyfrifoldebau'r Swyddog Atebol
3. Polisi Atal Twyll
   3.1 Ymrwymiadau'r Brifysgol
   3.2 Cyfrifoldebau'r rhai hynny sy'n gysylltiedig â'r Brifysgol.
   3.3 Polisi dim dial
   3.4 Gweithredu'r polisi Atal Twyll
4. Mathau cyffredin o dwyll mewn prifysgol.
   4.1 Twyll cyffredin
5. Camau gweithredu atal twyll
   5.1 Mathau posib o dwyll academaidd
   5.2 Effaith bosib twyll academaidd
6. Os bydd twyll hysbys neu amheuon am dwyll
   6.1 Amheuon cychwynnol o dwyll posib
   6.2 Beth i'w wneud
   6.3 Beth na ddylid ei wneud
   6.4 Polisi dim dial
7. Twyll â goblygiadau academaidd
   7.1 Cynllun ymateb i dwyll
8. Monitro ac adolygu
   8.1 Monitro ac adolygu
9. Polisïau cysylltiedig

# 1. Rhagarweiniad

## 1.1 Nodau'r Polisi.

Mae'r Brifysgol yn ymrwymedig i ddefnyddio arian cyhoeddus a phreifat yn briodol. Felly, mae'n hanfodol bod pawb sy'n gysylltiedig â'r Brifysgol - gan gynnwys staff, myfyrwyr, cyflogeion, contractwyr a thrydydd partïon – yn ymwybodol o'r risg o dwyll, llygredigaeth, lladrata a gweithgareddau eraill sy'n cynnwys anonestrwydd, o bob math.

Nod y Brifysgol yw lleihau achosion o dwyll i'r isafswm sy'n ymarferol - a hefyd gyflwyno trefniadau sy'n cadw unrhyw dwyll i lefel isafswm yn barhaus. Bydd ymagwedd y Brifysgol at atal twyll yn gynhwysfawr, yn gosteffeithiol ac yn broffesiynol, gan ddefnyddio arbenigedd arbenigol yn ôl yr angen.

Yn ogystal ag ystyried twyll sy'n cael ei gyflawni yn erbyn y Brifysgol, mae'r polisi hwn hefyd yn ystyried twyll o dan Ddeddf Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol 2023 (EECTA) a'r drosedd Methiant i Atal Twyll.

Mae'r ddogfen hon yn nodi polisi'r Brifysgol mewn perthynas ag atal twyll. Ei nod yw rhoi arweiniad clir i hwyluso gweithgarwch y Brifysgol, gan gynnal rheolaethau cadarn ar yr un pryd, a diogelu cyflogeion a'r Brifysgol rhag twyll, gan sicrhau parhad ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd.

Dylid darllen y polisi ar y cyd â pholisïau atal twyll eraill, sydd i'w gweld yn adran olaf y polisi hwn.

## 1.2 Cwmpas

Mae'r Polisi'n gymwys i holl gyflogeion Prifysgol Abertawe a phersonau cysylltiedig, a holl weithgareddau'r Brifysgol. Mae'r polisi hwn yn gymwys i dwyll o'r tu allan a thwyll tuag allan.

## 1.3 Cydymffurfio

Rhaid cynnal holl weithgareddau'r Brifysgol gan ystyried y polisi Atal Twyll a pholisïau cysylltiedig. Mae pob aelod staff ac unigolyn cysylltiedig sy'n gweithredu ar ran y Brifysgol neu'n darparu gwasanaethau i'r Brifysgol, yn gyfrifol am sicrhau ei fod yn cydymffurfio bob amser â'r Polisi.

Mae cydymffurfio'n orfodol a gellir ymdrin â gweithredu'n groes i'r Polisi hwn o dan weithdrefnau ymddygiad y Brifysgol. Hefyd, mae methu cydymffurfio â'r Polisi hwn yn golygu risg y gallai'r unigolyn dan sylw fod yn cyflawni twyll.

## 1.4.Diffiniadau

Y diffiniad o **Dwyll** yw:

- dichell anghywir neu droseddol â'r bwriad o arwain at elw ariannol neu bersonol, a/neu
- unigolyn neu beth â'r bwriad i dwyllo eraill, fel arfer drwy hawlio neu gael cydnabyddiaeth am gyflawniadau neu rinweddau'n anghyfiawn

**Twyll o'r tu allan** yw twyll yn erbyn y sefydliad lle mae'r sefydliad yn destun twyll.

**Twyll tuag allan** yw twyll a gyflawnir er budd y sefydliad.

Gall **Person Cysylltiedig** gynnwys cyflogeion, asiantau, cyflenwyr a gwerthwyr.

Y diffiniad o **lwgrwobrwyo** yw cynnig, rhoi, derbyn neu ofyn am unrhyw eitem o werth (arian, nwyddau, ffafrau neu fathau eraill o gydnabyddiaeth) i ddylanwadu ar weithredoedd unigolyn swyddogol neu unigolyn arall sy'n gyfrifol am ddyletswydd gyhoeddus neu gyfreithiol.

Y diffiniad o **lygredigaeth** yw ymddygiad anonest neu dwyllodrus, fel arfer yn cynnwys llwgrwobrwyo.

## 1.5 Deddf Twyll 2006

O dan Ddeddf Twyll 2006, ceir tair trosedd benodol:

- Twyll drwy ymhoniad anwir

- Twyll drwy beidio â datgelu gwybodaeth.
- Twyll drwy gamddefnyddio swydd

Yn ogystal, nid yw dwyn - fel tynnu a/neu gamddefnyddio arian, asedau neu arian parod - yn cael ei erlyn fel twyll ond caiff ei drin o dan y gwahanol Ddeddfau Dwyn.

## 1.6 Y Drosedd Methiant i Atal Twyll (ECCTA)

Nid yw'r drosedd hon yn cynnwys maes traddodiadol twyll yn erbyn y sefydliad, ond mae'n symud y ffocws i dwyll a gyflawnir gan gyflogeion neu drydydd partïon er budd y sefydliad.

Gellir dal sefydliadau'n atebol yn droseddol yn unol â'r drosedd Methiant i Atal Twyll o dan y troseddau canlynol:

- Twyll drwy ymhoniad anwir
- Twyll drwy gyfrifyddu anwir
- Twyll drwy gamddefnyddio swydd
- Twyll drwy beidio â datgelu gwybodaeth
- Cymryd rhan mewn busnes twyllodrus
- Cael gwasanaethau'n anonest
- Twyllo cyllid y wlad
- Masnachu twyllodrus
- Datganiadau anwir gan uwch-aelodau staff/llywodraethwyr

## 1.7 Amcanion y polisi

Mae gan y Brifysgol ymagwedd amlweddog at dwyll. Prif amcanion polisi atal twyll y Brifysgol yw:

- Creu diwylliant atal twyll
- Atal twyll i'r graddau mwyaf posib
- Camau gweithredu llwyddiannus i rwystro unrhyw dwyll na ellir ei atal.
- Canfod yn gyflym unrhyw dwyll na ellir ei atal.
- Ymchwilio'n broffesiynol i dwyll sy'n cael ei ganfod
- Camau gweithredu a chosbau mewnol ac allanol effeithiol yn erbyn pobl y canfuwyd eu bod yn cyflawni twyll, gan gynnwys camau cyfreithiol am droseddau.
- Cyfathrebu a dysgu effeithiol mewn perthynas â thwyll, a
- Dulliau effeithiol o geisio unioni pan a lle y cyflawnir twyll.

Amcan pennaf gweithgarwch atal twyll y Brifysgol yw sicrhau bod twyll yn cael ei ystyried yn annerbyniol gan bob rhanddeiliad a bod gweithgarwch atal twyll yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth uchel gan y Brifysgol gyfan.

## 1.8 Diben y polisi hwn

Mae'r ddogfen hon yn nodi polisi a gweithdrefnau'r Brifysgol ar gyfer ymdrin ag amheuon o dwyll, gan gynnwys llygredigaeth, ac mae'n cynnwys cyfarwyddiadau cryno am beth i'w wneud, a phwy i gysylltu ag ef neu ei hysbysu, os ceir unrhyw bryderon sy'n gysylltiedig â thwyll. Nid yw'n cynnwys dwyn a gweithredoedd troseddol neu anghyfreithlon eraill sy'n cynnwys anonestrwydd.

Ar lefel ymarferol, ystyrir bod twyll o'r tu allan yn ymgais fwriadol i amddifadu'r Brifysgol (a'i gweithgareddau cysylltiedig) o arian neu nwyddau drwy ffugio cofnodion neu ddogfennau (e.e. cyflwyno anfonebau anwir, cofnodion amser neu hawliadau teithio chwyddedig a/neu ddefnyddio archebion prynu i gael nwyddau at ddefnydd personol). Mae hyn yn wahaniaeth pwysig, â'r bwriad o egluro'r gwahaniaeth hanfodol rhwng twyll bwriadol a chamgymeriad anfwriadol, gan ddileu - pryd bynnag y bo modd - unrhyw ddryswch neu amwysedd posib.

Tybir bod twyll tuag allan wedi'i gyflawni pan gaiff twyll ei gyflawni gan bersonau cysylltiedig er budd y sefydliad (neu sefydliad trydydd parti o bosib). Ar gyfer erlyniad o dan y drosedd methiant i atal, gall y budd sy’n deillio o dwyll tuag allan fod yn uniongyrchol, yn anuniongyrchol, yn wirioneddol neu'n fwriadedig.

## 2. Swyddog Atebol a Phersonau Cyfrifol

### 2.1 Swyddog Atebol

Yr Is-ganghellor yw’r Swyddog Atebol am Atal Twyll a'r holl faterion sy'n gysylltiedig â Thwyll.

### 2.2 Personau Cyfrifol

Personau cyfrifol eraill (atal twyll):

- Y Prif Swyddog Ariannol
    - Y Polisi Atal Gwyngalchu Arian
    - Y Polisi Atal Twyll
    - Polisi'r Ddeddf Cyllid Troseddol
    - Y Cynllun Ymateb i Dwyll

- Y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Chydymffurfiaeth
    - Y Polisi Atal Llwgrwobrwyo a Llygredigaeth

- Y Cyfarwyddwr Llywodraethiant
    - Polisi Chwythu'r Chwiban

- Y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol
    - Pob polisi Adnoddau Dynol

### 2.3.Cyfrifoldebau’r cyflogai

Cyfrifoldeb yr holl gyflogeion yw atal, canfod a rhoi gwybod am dwyll. Mae'n ofynnol i’r holl gyflogeion osgoi unrhyw weithgarwch a allai arwain at dwyll neu ei hwyluso ac maent yn gyfrifol am roi gwybod am dwyll i'r person perthnasol, fel y'i cofnodir ym mhob polisi unigol.

Mae cyflogeion yn gyfrifol am sicrhau eu bod yn ymgymryd â hyfforddiant digonol a phriodol sy'n gymesur i'w rolau. Mae hyfforddiant ar atal twyll a'r ECCTA newydd ar gael ar wefan E-Learning Professional HE Services (PHES) ac mae'r cyrsiau'n cynnwys 'Intro to Counter-Fraud'. Mae holl aelodau staff Prifysgol Abertawe â chyfeiriad e-bost yn gallu cael mynediad at wefan e-ddysgu PHES.

### 2.4 Cyfrifoldebau'r Swyddog Atebol

Mae'n rhaid i'r Swyddog Atebol sicrhau bod gweithdrefnau rhesymol ar waith sy'n cynnwys egwyddorion â ffocws ar ganlyniadau. Mae hyn yn cynnwys cynllun atal twyll sydd â gweithdrefnau cymesur â'r risgiau a nodir yn yr asesiadau risg. Mae'r gweithdrefnau rhesymol hyn yn cynnwys:

1. Ymrwymiad ar y lefel uchaf
2. Asesiad risg
3. Gweithdrefnau atal twyll cymesur sy'n seiliedig ar risg
4. Diwydrwydd dyladwy
5. Cyfathrebu a hyfforddi
6. Monitro ac adolygu

Gall y Swyddog Atebol ddirprwyo gweithrediadau o ddydd i ddydd i'r Personau Cyfrifol, gan barhau'n atebol yn gyffredinol am yr holl faterion sy'n ymwneud â thwyll.

## 3. Polisi Atal Twyll

### 3.1 Ymrwymiadau'r Brifysgol

Mae'r Brifysgol yn ymrwymedig i'r safonau uchaf o onestrwydd, atebolrwydd, uniondeb a thryloywder yn ei llywodraethiant. O ganlyniad uniongyrchol i hyn, mae'r Brifysgol yn ymrwymedig i:

- leihau twyll sy'n gysylltiedig ag unrhyw rai o'i gweithgareddau, ei gweithrediadau a'i lleoliadau i'r isafswm ymarferol.
- ymchwilio'n drylwyr i unrhyw faterion twyll a allai godi. Cynhelir unrhyw ymchwiliad o'r fath heb ystyried ffactorau fel swydd, teitl neu hyd gwasanaeth.

Pan brofir gweithredoedd o dwyll neu lygredigaeth, bydd y Brifysgol yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod y drwgweithredwr (neu ddrwgweithredwyr) yn cael eu trin yn unol â holl rym y gyfraith a pholisi disgyblu/prosesau contractio'r Brifysgol (lle mae trydydd parti yn rhan ohono), a bydd hefyd yn cymryd pob cam i adennill unrhyw a phob colled yn llawn.

Mae'r Brifysgol yn ymrwymedig i gynnal cofrestr risgiau Atal Twyll. Mae'r Grŵp Llywio Atal Twyll yn rheoli'r Gofrestr Risgiau Atal Twyll yn weithredol, gan ei hadolygu a'i diweddaru bob chwarter.

### 3.2 Cyfrifoldebau'r rhai hynny sy'n gysylltiedig â'r Brifysgol.

Cyfrifoldeb pawb sy'n gysylltiedig â'r Brifysgol - gan gynnwys staff, myfyrwyr, cyflogeion, contractwyr a thrydydd partïon - yw rhoi gwybod am unrhyw amheuon o dwyll neu lygredigaeth sy’n seiliedig ar resymau teg.

### 3.3 Polisi dim dial

Mae gan y Brifysgol bolisi "dim dial" ar gyfer pobl sy'n rhoi gwybod am amheuon rhesymol, a gellir mynegi pryderon os oes angen o dan bolisi Chwythu'r Chwiban y Brifysgol. Gweler 6.4 am fwy o wybodaeth.

### 3.4 Rhoi'r Polisi Atal Twyll ar waith.

Mae'r polisi hwn yn gymwys i unrhyw dwyll, neu amheuon o dwyll sy'n ymwneud â phawb, ac unrhyw un sy'n gysylltiedig â'r Brifysgol - gan gynnwys staff, myfyrwyr, gweithwyr, contractwyr a thrydydd partïon.

## 4. Mathau cyffredin o dwyll mewn Prifysgol

### 4.1 Twyll cyffredin

Gall twyll cyffredin o’r tu allan gynnwys y canlynol ond nid yw'n gyfyngedig iddynt:

- Twyll sy'n ymwneud ag arian parod, asedau diriaethol neu wybodaeth gyfrinachol.
- Camddefnyddio cyfrifon
- Twyll ynghylch caffael
- Twyll ynghylch y gyflogres
- Twyll ynghylch cyfrifyddu ariannol, gan gynnwys ffïoedd.
- Hawliadau treuliau twyllodrus
- Twyll ynghylch geirdaon, cymwysterau a chyflogaeth
- Twyll ynghylch recriwtio a phenodi
- Twyll ynghylch llwgrwobrwyo a llygredigaeth
- Twyll academaidd gan gynnwys mewnfudo, derbyn myfyrwyr, interniaethau, arholiadau a dyfarniadau.
- Twyll ynghylch llety, gan gynnwys dewisiadau a thaliadau.

Gall twyll tuag allan gynnwys y canlynol ond nid yw'n gyfyngedig iddynt:

- Ffugio dogfennau i greu'r argraff bod y sefydliad o safon uwch er mwyn cynnal achrediadau neu atal cosbau ariannol, e.e. achrediadau amgylcheddol neu safleoedd y Brifysgol.
- Addasu dogfennau ariannol i or-ddweud iechyd ariannol y Brifysgol, er enghraifft wrth geisio buddsoddiad neu gontractau newydd.
- Dargyfeirio taliadau i wella adroddiadau neu brosiectau penodol.

- Cynyddu gwerth anfonebau'n dwyllodrus er budd y sefydliad neu dwyllo cwsmer ar ran y Brifysgol.
- Creu anfonebau ar gyfer endidau neu leoliadau anghywir.
- Cyflogeion yn ffugio dogfennau neu'n cyflawni twyll i fodloni amcanion/targedau perfformiad personol a rhoi budd anuniongyrchol i'r Brifysgol.

## 5. Twyll â goblygiadau academaidd

### 5.1 Mathau posib o dwyll academaidd

Yn aml mae twyll yn gysylltiedig â budd ariannol uniongyrchol, megis twyll ynghylch caffael ac anfonebu. Fodd bynnag, yn y sector prifysgolion, mae twyll academaidd yn bosibilrwydd ychwanegol, gan gynnwys twyll mewn perthynas â:

- Mewnfudo
- Derbyn Myfyrwyr
- Interniaethau
- Arholiadau
- Dyfarniadau
- Ymchwil
- Dyfarniadau a gwariant grantiau.

### 5.2 Effaith bosib twyll academaidd

Gallai gweithgarwch twyllodrus o'r fath fod yn uchel ei broffil, gan arwain at ganlyniadau sylweddol posibl i'r Brifysgol.

Mewn achosion o'r fath, mae'n hanfodol eto gysylltu ag unigolyn priodol ar y cyfle cyntaf, ynghyd ag uwch-swyddog(ion) eraill y Brifysgol, fel y tybir ei bod yn briodol. Gan fod pob achos o'r math hwn yn wahanol, nid oes modd llunio arweiniad hollol ddiffiniol i'w ddilyn.

Gall twyll o'r fath gynnwys nifer o randdeiliaid, gan gynnwys yr heddlu a chyrff proffesiynol, ond mae penderfyniadau ynghylch eu cyfranogiad yn gyffredinol yn parhau i fod yn gyfrifoldeb uwch-swyddogion y Brifysgol. Er mwyn sicrhau nad oes dim yn tarfu ar yr ymchwiliad, fodd bynnag, mae'n hanfodol bod nifer y bobl sy'n ymwybodol o'r ymchwiliad yn cael ei gadw i'r nifer lleiaf posib. Dylid cydnabod hefyd ei bod hi'n anochel y bydd yr heddlu yn cynnal eu hymchwiliad eu hunain gyda rhai o'r mathau hyn o dwyll.

## 6. Camau Gweithredu Atal Twyll

### 6.1 Amheuon cychwynnol o dwyll posib

Os amheuir bod twyll neu lygredigaeth wedi'i gyflawni, neu ei fod ar fin cael e gyflawni, mae'n hanfodol cysylltu â'r person priodol yn y Brifysgol ar unwaith; ceir rhestr o bersonau cyfrifol yn y polisi hwn a dylid cyfeirio at y Cynllun Ymateb i Dwyll hefyd.

### 6.2 Beth i'w wneud

- Rhoi gwybod am eich pryderon, fel uchod; bydd adroddiadau'n cael eu trin yn gyfrinachol.
- Ceisio cymorth gan y person cyfrifol.
- Dyfalbarhau os bydd eich pryderon yn parhau.
- Cadw neu gopïo unrhyw ddogfen(nau) berthnasol i'w defnyddio mewn unrhyw ymchwiliad dilynol; mae hyn yn syniad da rhag ofn y caiff unrhyw ddogfennau eu dinistrio'n ddamweiniol neu'n fwriadol.

### 6.3 Beth na ddylid ei wneud.

- Ofni ceisio cyngor gan y person cyfrifol.
- Dwyn eich amheuon gerbron unigolyn neu unigolion.

- Trafod eich pryderon â chydweithwyr neu unrhyw un arall heblaw am y person cyfrifol.
- Cysylltu â'r heddlu'n uniongyrchol - cyfrifoldeb y person priodol ac uwch-swyddogion eraill y Brifysgol yw'r penderfyniad hwnnw.
- Gwahardd unrhyw un dros dro os ydych chi'n rheolwr llinell, heb gyngor uniongyrchol gan Adnoddau Dynol.

### 6.4 Polisi dim dial

Mae gan y Brifysgol bolisi 'dim dial' ar gyfer pobl sy'n rhoi gwybod am bryderon ac amheuon rhesymol, a bydd unrhyw ddial yn erbyn pobl o'r fath - gan gynnwys erledigaeth a rhwystro/atal adrodd am bryderon - yn cael ei drin yn dramgwydd difrifol o dan brosesau disgyblu'r Brifysgol. Yn yr un modd, fodd bynnag, bydd camddefnyddio proses drwy wneud honiadau maleisus hefyd yn cael ei ystyried yn fater disgyblu. Dylid rhoi gwybod am unrhyw achosion o dorri'r polisi 'dim dial' drwy'r broses a geir ym Mholisi Chwythu'r Chwiban y Brifysgol.

## 7. Os bydd twyll hysbys neu amheuon o dwyll

### 7.1 Y cynllun ymateb i dwyll

Os bydd twyll hysbys neu amheuon o dwyll, dylid dilyn y cynllun ymateb i dwyll ynghyd ag unrhyw bolisi perthnasol arall.

## 8. Monitro ac Adolygu

### 8.1 Monitro ac adolygu

Caiff y polisi hwn ei adolygu a'i ddiweddaru'n flynyddol neu'n amlach os bydd twyll difrifol neu newid i ddeddfwriaeth y DU.

## 9. Polisïau cysylltiedig

- Y Polisi Atal Llwgrwobrwyo a Llygredigaeth
- Y Polisi Atal Gwyngalchu Arian
- Polisi Deddf Cyllid Troseddol
- Y Cynllun Ymateb i Dwyll
- Polisïau Adnoddau Dynol
- Polisi Chwythu'r Chwiban

## Rheoli fersiwn

| | |
|---|---|
| Fersiwn | 5.0 |
| Newidiadau | Adran 1.1. - Para 3 wedi'i ychwanegu i gynnwys yr ECCTA<br>Adran 1.2 yn egluro twyll o’r tu allan a thwyll tuag allan<br>Adran 1.4 - diffiniad wedi'i ychwanegu ar gyfer *personau cysylltiedig, twyll o’r tu allan, twyll tuag allan*<br>Adran 1.6 wedi'i hychwanegu - Trosedd Methiant i Atal Twyll (ECCTA)<br>Adran 1.8 - para 2 yn egluro twyll o’r tu allan ac ychwanegwyd twyll tuag allan<br>Adran 2.3 - diweddarwyd i gynnwys hyfforddiant ar yr ECCTA ym mharagraff 2<br>Adran 2.4 Cyfrifoldebau'r Swyddog Atebol wedi'i hychwanegu<br>Adran 4.1 yn egluro twyll o’r tu allan ac ychwanegu twyll tuag allan.<br>Diweddarwyd i'w adolygu bob 2 flynedd |
| Diweddarwyd | 29.10.25 |

| | |
|---|---|
| Dyddiad Cymeradwyo | 14.11.25 |
| Corff Cymeradwyo | Y Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd  Risg |
| Swyddog Cyfrifol | Y Prif Swyddog Ariannol |
| Swyddog Atebol | Yr Is-ganghellor |